OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 183 (Cy. 77)

# Y GYMRAEG

## Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *9 Chwefror 2016* |
| *Yn dod i rym - -* | *15 Chwefror 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 35, 38 a 150(2)(f) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Yn unol ag adran 150(2) o'r Mesur, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Diwygio Atodlen 6) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 15 Chwefror 2016.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Mesur" yw Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

### Diwygio Atodlen 6

**2.** Mae Atodlen 6 (cyrff cyhoeddus etc: safonau) i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wedi ei diwygio yn unol â'r Atodlen.

*Carwyn Jones*
9 Chwefror 2016 Prif Weinidog Cymru

(**1**) 2011 mccc 1.

## YR ATODLEN

Erthygl 2

### DIWYGIADAU I ATODLEN 6

**1.** Yn nhestun Cymraeg y tabl yn Atodlen 6 (cyrff cyhoeddus etc: safonau) i'r Mesur, yn y mannau priodol mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "Yr Awdurdod Ffrwythloni ac Embryoleg Dynol ("The Human Fertilisation and Embryology Authority") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion" |
| "Yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil ("The Civil Nuclear Police Authority") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion" |
| "Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain ("British Transport Police Authority") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion" |
| "Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ("The Human Tissue Authority") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion" |
| "Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru ("The Board of Community Health Councils in Wales") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau cadw cofnodion" |
| "Y Bwrdd Ystadegau ("The Statistics Board") | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br>Safonau llunio polisi |

| | |
|---|---|
| | Safonau gweithredu<br><br>Safonau cadw cofnodion” |
| “Career Choices Dewis Gyrfa Cyfyngedig (“Career Choices Dewis Gyrfa Limited”) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br><br>Safonau llunio polisi<br><br>Safonau gweithredu<br><br>Safonau cadw cofnodion” |
| “Coleg Ceredigion | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br><br>Safonau llunio polisi<br><br>Safonau gweithredu<br><br>Safonau cadw cofnodion” |
| “Coleg Sir Gâr | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br><br>Safonau llunio polisi<br><br>Safonau gweithredu<br><br>Safonau cadw cofnodion” |
| “Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (*“Police and Crime Commissioners”*) | Safonau cyflenwi gwasanaethau<br><br>Safonau llunio polisi<br><br>Safonau gweithredu<br><br>Safonau cadw cofnodion”” |

**2.** Yn nhestun Saesneg y tabl yn Atodlen 6 (public bodies etc: standards) i’r Mesur, yn y mannau priodol mewnosoder—

| | |
|---|---|
| “The Board of Community Health Councils in Wales (*“Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru”*) | Service delivery standards<br><br>Policy making standards<br><br>Operational standards<br><br>Record keeping standards” |
| “The British Film Institute (*“Y Sefydliad Ffilm Prydeinig”*) | Service delivery standards<br><br>Policy making standards |

| | |
|---|---|
| | Operational standards<br>Record keeping standards” |
| “British Transport Police Authority (*“Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain”*) | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards” |
| “The Canal & River Trust (*“Glandŵr Cymru”*) | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards” |
| “Career Choices Dewis Gyrfa Limited (*“Career Choices Dewis Gyrfa Cyfyngedig”*) | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards” |
| “Civil Nuclear Police Authority (*“Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil”*) | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards” |
| “Coleg Ceredigion | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards” |
| “Coleg Sir Gâr | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards |

| | |
|---|---|
| | Record keeping standards” |
| “The General Pharmaceutical Council (*“Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol”*) | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards” |
| “Gofal Cymru | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards” |
| “Hafal | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards” |
| “Her Majesty’s Chief Inspector of Education and Training in Wales (*“Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru”*) | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards” |
| “The Human Fertilisation and Embryology Authority (*“YrAwdurdod Ffrwythloni ac Embryoleg Dynol”*) | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards” |
| “The Human Tissue Authority (*“Yr Awdurdod Meinweoedd Dynol”*) | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards” |

| | |
|---|---|
| "Leonard Cheshire Disability | Service delivery standards<br><br>Policy making standards<br><br>Operational standards<br><br>Record keeping standards" |
| "The National Association of Citizens Advice Bureaux (*"Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth")* | Service delivery standards<br><br>Policy making standards<br><br>Operational standards<br><br>Record keeping standards" |
| "Police and Crime Commissioners (*"Comisiynwyr Heddlu a Throseddu"*) | Service delivery standards<br><br>Policy making standards<br><br>Operational standards<br><br>Record keeping standards" |
| "Qualifications Wales (*"Cymwysterau Cymru"*) | Service delivery standards<br><br>Policy making standards<br><br>Operational standards<br><br>Record keeping standards" |
| "Royal Voluntary Service | Service delivery standards<br><br>Policy making standards<br><br>Operational standards<br><br>Record keeping standards" |
| "The Statistics Board (*"Y Bwrdd Ystadegau"*) | Service delivery standards<br><br>Policy making standards<br><br>Operational standards<br><br>Record keeping standards" |

| | |
|---|---|
| "The Wales Audit Office (*"Swyddfa Archwilio Cymru")* | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards" |
| "Wallich-Clifford Community | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards" |
| "WEA YMCA CC Cymru | Service delivery standards<br>Policy making standards<br>Operational standards<br>Record keeping standards" |

**3.** Yn nhestun Cymraeg y tabl yn Atodlen 6 i'r Mesur, hepgorer y cofnodion a ganlyn—

(a) "Awdurdodau'r Heddlu (*"Police Authorities"*)";

(b) "Ymddiriedolaethau Prawf (*"Probation Trusts"*)";

(c) "Yr Asiantaeth Genedlaethol er Gwella Plismona (*"The National Policing Improvement Agency"*)";

(d) "Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd ("The University of Wales Institute, Cardiff")";

(e) "Yr Awdurdod Asesu Clinigol Cenedlaethol (*"National Clinical Assessment Service"*)";

(f) "Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd (*"The Olympic Delivery Authority"*)";

(g) "Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain (*"The British Waterways Board"*)";

(h) "Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ("The Sustainable Development Commission")";

(i) "Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (*"The Legal Services Commission"*)";

(j) "Comisiwn y Loteri Genedlaethol (*"TheNational Lottery Commission"*)";

(k) "Comisiynydd y Gronfa Gymdeithasol (*"The Social Fund Commissioner")";*

(l) "Y Cronfeydd Byw'n Annibynnol (*"TheIndependent Living Funds"*)";

(m) "Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr ("The Royal Pharmaceutical Society of Great Britain")";

(n) "Cyngor Ffilm y DU (*"UK Film Council"*)";

(o) "Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (*"Universities and Colleges Admission Service"*)";

(p) "Llais Defnyddwyr (*"Consumer Focus"*)";

(q) "Prifysgol Cymru, Casnewydd ("The University of Wales, Newport")";

(r) "Prifysgol Glandŵr (*"Glandŵr University"*); a

(s) "Prifysgol Morgannwg (*"University of Glamorgan"*)".

**4.** Yn nhestun Saesneg y tabl yn Atodlen 6 i'r Mesur, hepgorer y cofnodion a ganlyn—

(a) "Police Authorities (*"Awdurdodau'r Heddlu"*)";

(b) "Probation Trusts ("Ymddiriedolaethau Prawf")";

(c) "The British Waterways Board (*"Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain"*)";

(d) "Consumer Focus (*"Llais Defnyddwyr"*)";

(e) "Glandŵr University (*"Prifysgol Glandŵr"*);

(f) "The Independent Living Funds (*"Y Cronfeydd Byw'n Annibynol"*)";

(g) "The Legal Services Commission (*"Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol"*)";

(h) "National Clinical Assessment Service (*"Yr Awdurdod Asesu Clinigol Cenedlaethol"*)";

(i) "The National Lottery Commission (*"Comisiwn y Loteri Genedlaethol"*)";

(j) "The National Policing Improvement Agency ("Yr Asiantaeth Genedlaethol er Gwella Plismona")";

(k) "The Olympic Delivery Authority ("Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd")";

(l) "The Royal Pharmaceutical Society of Great Britain (*"Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr"*)";

(m) "The Social Fund Commissioner ("Comisiynydd y Gronfa Gymdeithasol")";

(n) "The Sustainable Development Commission (*"Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy"*)";

(o) "UK Film Council (*"Cyngor Ffilm y DU"*)";

(p) "Universities and Colleges Admission Service (*"Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau"*);

(q) "University of Glamorgan (*"Prifysgol Morgannwg"*)";

(r) The University of Wales Institute, Cardiff (*"Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd"*)"; a

(s) "The University of Wales, Newport (*"Prifysgol Cymru, Casnewydd"*)".

**5.** Yn nhestun Cymraeg y tabl yn Atodlen 6 i'r Mesur—

(a) yn lle "Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (*"The General Teaching Council for Wales"*)" rhodder "Cyngor y Gweithlu Addysg (*"Education Workforce Council"*)";

(b) yn lle "Y Cyngor Proffesiynau Iechyd (*"The Health Professions Council"*)" rhodder "Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal *("The Health and Care Professions Council"*)";

(c) yn lle "Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd (*"The Council for Healthcare Regulatory Excellence"*)" rhodder "Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (*"The Professional Standards Authority for Health and Social Care"*)";

(d) yn lle "Ffocws ar Deithwyr (*"Passenger Focus"*)" rhodder "Transport Focus"; ac

(e) yn lle "Panel Asesu Rhenti i Gymru (*"The Rent Assessment Panel for Wales"*)" rhodder "Y pwyllgorau asesu rhenti i Gymru (*"The rent assessment committees for Wales"*)".

**6.** Yn nhestun Saesneg y tabl yn Atodlen 6 i'r Mesur—

(a) yn lle "The Council for Healthcare Regulatory Excellence (*"Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd"*)" rhodder "The Professional Standards Authority for Health and Social Care (*"Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol"*)";

(b) yn lle “The General Teaching Council for Wales (*“Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru”*)” rhodder “Education Workforce Council *(“Cyngor y Gweithlu Addysg”*)”;

(c) yn lle “The Health Professions Council (*“Y Cyngor Proffesiynau Iechyd”*)” rhodder “The Health and Care Professions Council (*“*Y *Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal”*)”;

(d) yn lle “Passenger Focus (*“Ffocws ar Deithwyr”*)” rhodder “Transport Focus”; ac

(e) yn lle “The Rent Assessment Panel for Wales (*“Panel Asesu Rhenti i Gymru”*)” rhodder “The rent assessment committees for Wales (*“Ypwyllgorau asesu rhenti i Gymru”*)”.

**7.** Yn nhestun Cymraeg paragraff 2 o Atodlen 6 i’r Mesur, hepgorer y diffiniad o “Ffocws ar Deithwyr” (*“Passenger Focus”*) a mewnosoder yn y man priodol “ystyr “Transport Focus” yw’r Cyngor Teithwyr a sefydlwyd o dan Ddeddf Rheilffyrdd 2005;”.

**8.** Yn nhestun Saesneg paragraff 2 o Atodlen 6 i’r Mesur, hepgorer y diffiniad o “Passenger Focus” (*“Ffocws ar Deithwyr”*) a mewnosoder yn y man priodol ““Transport Focus” means the Passengers’ Council established under the Railways Act 2005;”.

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)*

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1) (“y Mesur”) yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â’r Gymraeg (“safonau”).

Mae adran 25 o’r Mesur yn darparu bod rhaid i berson gydymffurfio â safon ymddygiad a bennir gan Weinidogion Cymru os bodlonir, a thra bodlonir, chwe amod. Amod 1 yw bod y person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau. Amod 2 yw bod y safon yn gymwysadwy i’r person. Nid yw’r amodau eraill yn berthnasol i’r Gorchymyn hwn.

Mae adran 33 o’r Mesur yn darparu bod person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau os yw’r person (a) yn dod o fewn Atodlen 5 a hefyd o fewn Atodlen 6, neu (b) yn dod o fewn Atodlen 7 a hefyd o fewn Atodlen 8. Mae person yn dod o fewn Atodlen 5 os yw’r person yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yng ngholofn 2 o’r tabl yn Atodlen 5. Mae person yn dod o fewn Atodlen 6 os yw’r person (a) yn cael ei bennu yng ngholofn 1 o’r tabl yn Atodlen 6 (“y tabl yn Atodlen 6”), neu (b) yn dod o fewn categori o bersonau a bennir yn y golofn honno. Nid yw Atodlenni 7 ac 8 yn berthnasol i’r Gorchymyn hwn.

Mae adran 36 yn darparu bod safon yn gymwysadwy i berson os yw’r safon yn perthyn i ddosbarth o safonau a bennir yng ngholofn 2 o gofnod y person yn y tabl yn Atodlen 6. Mae pob un o’r canlynol yn ddosbarth o safonau—

(i) safonau cyflenwi gwasanaethau,

(ii) safonau llunio polisi,

(iii) safonau gweithredu,

(iv) safonau hybu, a

(v) safonau cadw cofnodion.

Mae adran 35 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio’r tabl yn Atodlen 6 fel ei fod yn cynnwys cyfeiriad at berson sy’n dod o fewn un neu ragor o’r categorïau yn Atodlen

5, neu gategori o bersonau y mae pob un ohonynt yn dod o fewn un neu ragor o'r categorïau yn Atodlen 5.

Mae adran 38 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r tabl yn Atodlen 6 fel bod colofn 2 o gofnod yn cynnwys cyfeiriad at un neu ragor o'r canlynol—

(i) safonau cyflenwi gwasanaethau;

(ii) safonau llunio polisi;

(iii) safonau gweithredu; a

(iv) safonau cadw cofnodion.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 6 i'r Mesur drwy—

(a) mewnosod personau newydd yn Atodlen 6 a phennu dosbarthiadau o safonau yng ngholofn 2 o gofnod pob person;

(b) tynnu personau oddi ar Atodlen 6 pan fo'n briodol, er enghraifft os yw sefydliad wedi ei ddiddymu;

(c) diweddaru Atodlen 6 i adlewyrchu newidiadau mewn enwau ers i'r Mesur gael ei wneud.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.